# Prifysgol Bangor
# Polisi Eiddo Deallusol

| Manylion y Polisi | Gwybodaeth a ddarperir gan Awdur y Polisi |
|---|---|
| **Teitl y Polisi:** | Polisi Eiddo Deallusol |
| **Disgrifiad Byr:** | Perchnogaeth, defnydd, ymelwa ar eiddo deallusol a rhannu buddion ohono |
| **Statws y Polisi:** | Mae'r polisi hwn yn gyfyngedig i Fangor |
| **Cymeradwywyd gan:** | I'w gadarnhau |
| **Swyddog Polisi:** | Pennaeth y Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig |
| **Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol:** | Dirprwy Is-ganghellor dros Ymchwil a Menter |
| **Mewn grym o:** | Yr un â'r dyddiad cymeradwyo. |
| **Amlder Adolygu:** | Bob 3 blynedd |
| **Yn disodli:** | Polisi Cyffredin Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor ar Eiddo Deallusol (1 Ionawr 2013) |
| **Adolygwyd Diwethaf:** | 14/04/2023 |
| **Asesiad Effaith Cydraddoldeb:** | 14/04/2023 |

| | |
|---|---|
| **Cynaliadwyedd:**<br><br>**(Gweler Polisi Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor am ragor o wybodaeth.)** | **Sut mae'r polisi hwn yn dangos ymrwymiad i egwyddorion cynaliadwyedd y Brifysgol, yn cynnwys camau gweithredu, graddfeydd amser, hyfforddiant i fyfyrwyr a staff, a goblygiadau o ran adnoddau lle bo'n berthnasol?**<br><br>Mae rheoli Eiddo Deallusol yn effeithiol yn broses sy'n sylfaen i weithgareddau craidd y brifysgol ac yn cynnwys yr holl staff a myfyrwyr. Nid yw ynddo'i hun yn cyfeirio camau gweithredu at gynaliadwyedd yn benodol, ond gall wella llwyddiant y gweithgareddau hynny a'r nifer sy'n manteisio arnynt.<br><br>**Gyda phwy ydych chi wedi gweithio i ddatblygu'r polisi hwn (o fewn y brifysgol ac yn allanol)?**<br><br>Y Pwyllgor Cyfnewid Gwybodaeth<br>Ymgynghorwyr allanol sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig<br><br>**Sut mae'r polisi'n cael ei fonitro o ran cynaliadwyedd?**<br><br>Y Pwyllgor Cyfnewid Gwybodaeth |
| **Fersiwn Gymraeg:** | Ar gael ar-lein |
| **Geiriau allweddol:** | Eiddo deallusol, hawlfraint, rhannu refeniw |

## 1. RHAGARWEINIAD

Mae ymelwa ar Eiddo Deallusol yn gwella lledaeniad canlyniadau ymchwil, yn darparu dull ar gyfer gwelliant cymdeithasol a gall gynhyrchu incwm i'r Brifysgol a'i gweithwyr. Mae'n bwysig bod staff a myfyrwyr sydd wedi cyfrannu at greu ac ymelwa ar Eiddo Deallusol yn cael eu trin yn deg o ran rhannu unrhyw incwm sy'n deillio o ymelwa ar Eiddo Deallusol.

## 2. DATGANIAD POLISI

Mae'r Polisi hwn yn amlinellu safbwynt y Brifysgol yng nghyswllt creu, perchnogi, diogelu ac ymelwa ar Eiddo Deallusol yn y Brifysgol. Nod y Polisi yw cydbwyso buddiannau'r Brifysgol â buddiannau'r Crëwr/Crewyr ar delerau teg a rhesymol.

Mae prif egwyddorion y Polisi hwn fel a ganlyn:

- Mae'r Brifysgol yn dymuno creu amgylchedd sy'n annog ac yn hyrwyddo creu a lledaenu dyfeisiadau, ymchwil a damcaniaethau newydd.
- Cydnabyddiaeth gyhoeddus o waith academyddion ac ymchwilwyr (bônt yn Staff ac/neu'n Fyfyrwyr)
- Diogelu Eiddo Deallusol gwerthfawr a chreu mantais gystadleuol drwy ymelwa ar ganlyniadau
- Hyrwyddo ymelwa llwyddiannus ar Eiddo Deallusol
- Hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth yn llwyddiannus a thrwy hynny gynyddu twf economaidd rhanbarthol a chenedlaethol
- Hwyluso datblygiad Eiddo Deallusol trwy ddarparu budd ariannol teg a chyfartal i staff, myfyrwyr, adrannau a'r Brifysgol.

## 3. POLISÏAU CYSYLLTIEDIG

- Polisi ar Ymgynghori
- Gwrthdaro buddiannau

## 4. DIFFINIADAU

**"Swyddfa Fasnachol"**: Adran y Brifysgol sy'n gyfrifol am fasnacheiddio Eiddo Deallusol, sef y Gwasanaeth Cefnogi Ymchwil ac Effaith Integredig ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

**"Gwrthdaro Buddiannau"** fel y diffinnir ym Mholisi Gwrthdaro Buddiannau'r Brifysgol.

**"Crëwr/Crewyr":** unrhyw berson neu bersonau sy'n creu, dyfeisio neu fathu eitem o Eiddo Deallusol. Gall hyn fod yn annibynnol neu ar y cyd ag eraill.

**"Adran"**: unrhyw goleg, ysgol, sefydliad neu uned academaidd arall (neu gyfatebol) sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gyflwyno rhaglenni sy'n arwain at ddyfarnu graddau israddedig ac ôl-radd a chymwysterau academaidd eraill y Brifysgol a/neu gynnal a hyrwyddo gweithgarwch ymchwil, cymryd rhan mewn gweithgarwch trydedd genhadaeth neu unedau hunan-ariannu a/neu swyddogaethau eraill o'r fath gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i wasanaethau cyffredinol i'r Brifysgol.

**"Eiddo Deallusol"**: bydd yn cynnwys hawlfraint, patentau, hawliau dylunio, nodau masnach, enwau masnach, nodau gwasanaeth, hawliau cronfeydd data, hawliau bridwyr planhigion, modelau cyfleustod, gwybodaeth ymarferol arbennig, gwybodaeth gyfrinachol a hawliau eiddo deallusol eraill, ym mhob achos p'un a'u bod yn gofrestredig neu heb eu cofrestru a chan gynnwys ceisiadau am ganiatáu pob hawl neu ffurf ar ddiogeliad, gan gynnwys unrhyw rai rhagflaenorol, mewn unrhyw awdurdodaeth.

**"Deunyddiau Ysgolheigaidd":** gwerslyfrau, monograffau, dramâu, geiriau caneuon, sgorau cerddorol, cyflwyniadau llafar, llyfrau/erthyglau ffeithiol poblogaidd, nofelau a cherddi a gweithiau celfyddyd gain, erthyglau a ysgrifennwyd i'w cyhoeddi mewn cyfnodolion, erthyglau golygyddol, papurau cynhadledd a chyflwyniadau cysylltiedig, nodiadau a grëwyd at ddefnydd personol, traethodau ymchwil a thraethodau hir a deunyddiau tebyg eraill a all gael eu datblygu o bryd i'w gilydd.

**"Staff"**: pob person a gyflogir gan y Brifysgol boed hynny mewn swydd academaidd, ymchwil, technegol, academaidd-gysylltiedig neu swydd arall, boed am gyfnod penodol neu'n barhaol.

**"Myfyrwyr"**: myfyrwyr cofrestredig y Brifysgol p'un ai eu bod yn ôl-raddedig, yn israddedig neu ar gynllun cyfnewid, yn fyfyrwyr nad ydynt yn graddio neu fel arall a chan gynnwys myfyrwyr ôl-raddedig yn ystod y cyfnod o ysgrifennu canlyniadau eu hymchwil.

**"Goruchwyliwr"**: aelod o staff academaidd sy'n gyfrifol am oruchwylio, cynorthwyo, arwain, monitro neu gefnogi darn penodol o waith academaidd neu ymchwil mewn unrhyw ffordd arall, gan gynnwys asesiadau, gan Fyfyriwr.

**"Deunyddiau Addysgu"**: unrhyw ddeunyddiau a grëir yn y Brifysgol neu ar ei rhan, y bwriedir iddynt gael eu defnyddio'n bennaf gan staff neu eraill neu eu cyrchu gan fyfyrwyr ar unrhyw lefel, at ddibenion unrhyw gwrs astudio gan y myfyrwyr hynny. Mae enghreifftiau'n cynnwys taflenni, nodiadau darlithoedd, rhestrau darllen a gwybodaeth bellach i'w darparu i fyfyrwyr ac unrhyw ddeunyddiau sain, gweledol ac amlgyfrwng.

**"Adnoddau'r Brifysgol":** Cyfleusterau neu adnoddau'r Brifysgol gan gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

(i) Gofod ac offer swyddfa, labordy a stiwdio.
(ii) Caledwedd, meddalwedd a chefnogaeth gyfrifiadurol.
(iii) Gwasanaethau ysgrifenyddol.
(iv) Cynorthwywyr ymchwil, addysgu a labordy.
(v) Cyflenwadau a chyfleustodau.
(vi) Cyllid ar gyfer gweithgareddau ymchwil ac addysgu, teithio ac ad-daliadau cyllidol eraill, offer neu amser.
(vii) Gwasanaethau cefnogi canolog megis y Swyddfa Gyllid, cefnogaeth gyfreithiol neu gefnogaeth trosglwyddo technoleg.

## 5. CREADIGAETH A PHERCHNOGAETH EIDDO DEALLUSOL

### (A) Staff

5.1 Bydd staff yn cefnogi'r Brifysgol wrth weithredu'r Polisi hwn a byddant yn darparu cefnogaeth gyda gweithgareddau sy'n gysylltiedig â diogelu ac ymelwa ar Eiddo Deallusol fel y nodir yn adran 5.

5.2 Bydd y Brifysgol yn berchen ar yr holl Eiddo Deallusol a grëir gan Staff:

- Dros gyfnod eu cyflogaeth a/neu wrth gyflawni eu dyletswyddau ar ran y Brifysgol.
- Wrth ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol.
- Tra byddant yn cyflawni eu dyletswyddau sydd y tu allan i'w dyletswyddau arferol ond sydd wedi'u neilltuo'n benodol i'r aelodau Staff hynny;

5.3 Gall y Brifysgol bennu ei hawliau perchnogaeth trwy gytundebau â thrydydd parti (gweler 5.18, 5.19).

5.4 Fel rheol bydd y Brifysgol bob amser yn mynnu ei hawliau perchnogaeth dros y canlynol:

- Dyfeisiadau patentadwy.
- Meddalwedd cyfrifiadurol.
- Eiddo deallusol a grëwyd at ei dibenion gweinyddol.

5.5 Bydd y Brifysgol fel rheol yn ildio ei hawl i berchnogaeth dros hawliau Eiddo Deallusol sy'n ymwneud â chyhoeddi llyfrau ac erthyglau a ysgrifennwyd gan ei gweithwyr cyflogedig yn unol ag ymarfer academaidd arferol, yn ogystal ag unrhyw ddeunydd a gynhyrchir gan weithiwr cyflogedig at ddefnydd a chyfeiriad personol, gan gynnwys fel cymorth at addysgu. Mae eithriadau i hyn yn cynnwys Eiddo Deallusol mewn:

- Deunyddiau cwrs at ddiben cwrs sy'n cael ei gynnal neu sydd i'w gynnal gan y Brifysgol.

- Unrhyw waith a all fod yn angenrheidiol at ddiogelu hawliau mewn cyfleoedd masnachol.
- Unrhyw waith a gomisiynir gan sefydliad allanol.

5.6 Bydd y Brifysgol fel rheol yn ildio ei hawliau dros Eiddo Deallusol arall mewn Deunyddiau Ysgolheigaidd a Deunyddiau Addysgu. Mewn achosion o'r fath, bydd Staff yn rhoi trwydded ddi-amod a pharhaol, di-alw’n-ôl, anghyfyngedig, am ddim i'r Brifysgol i ddefnyddio a chopïo deunydd o'r fath. Mae eithriadau i hyn yn cynnwys:

- Bod y gwaith wedi'i gomisiynu'n benodol gan y Brifysgol.
- Bod y gwaith wedi cael ei gynhyrchu gyda defnydd sylweddol o adnoddau'r Brifysgol.

5.7 Mae'r Brifysgol yn annog cyhoeddi Deunydd Ysgolheigaidd ond mae'n rhaid i Staff ystyried y posibilrwydd fod unrhyw syniadau a ddatgelir ynddo yn cael eu cymhwyso’n fasnachol a rhaid iddynt ymgynghori â'r Swyddfa Fasnachol pan nodir y potensial i ymelwa ohono. Rhaid i staff sicrhau’r canlynol wrth gyflwyno Deunydd Ysgolheigaidd i’w gyhoeddi:

- Nad yw'n torri hawliau Eiddo Deallusol unrhyw drydydd parti.
- Nad yw’n torri unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth o gyfrinachedd.
- Nad yw'n datgelu Eiddo Deallusol y Brifysgol yn gynamserol.
- Nad yw'n cyfaddawdu hawliau'r Brifysgol yn ei Heiddo Deallusol.

5.8 Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gellir ystyried yr egwyddor o fynediad agored i allbynnau ymchwil yn fras fel budd cyhoeddus ac y gall ysgogi cyfleoedd ymchwil newydd a chefnogi effaith ymchwil. Mae'r Polisi hwn yn ei wneud yn ofynnol, lle bo modd, i’r holl allbynnau priodol a gynhyrchir gan staff gael eu cyflwyno i gadwrfa'r Brifysgol.

**(B) Myfyrwyr**

5.9 Bydd Myfyrwyr yn berchen ar yr Eiddo Deallusol a grëir ganddynt yn ystod eu hastudiaethau a’u hymchwil, yn amodol ar y darpariaethau yng nghymal 5.10, neu fel arall fel y nodir yn y Polisi hwn.

5.10 O dan rai amgylchiadau, y Brifysgol fydd yn berchen ar yr Eiddo Deallusol yng ngwaith y Myfyriwr ac efallai y bydd y Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Myfyriwr neilltuo eu Heiddo Deallusol yn ffurfiol i'r Brifysgol (neu i drydydd parti yn dibynnu ar yr achos) cyn, yn ystod neu’n dilyn cwrs eu hastudiaeth ac/neu ymchwil. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys:

- Pan fo'r Myfyriwr yn gweithio ar brojectau a ariennir gan drydydd parti ac y bydd y noddwr o bosib yn dymuno bod yn berchen ar yr Eiddo Deallusol a grëir. Mewn amgylchiadau o’r fath bydd y Myfyriwr yn cadarnhau eu bod yn cytuno y gallai fod yn ofynnol i’r Brifysgol fod yn berchen ar Eiddo

Deallusol o’r fath yn y lle cyntaf er mwyn cydymffurfio â thelerau unrhyw gytundeb â’r noddwr.

- Pan na ellir gwahanu'r Eiddo Deallusol oddi wrth hwnnw a ddatblygwyd gan Staff. Er enghraifft, pan fo Goruchwyliwr wedi cyfrannu’n sylweddol at greu Eiddo Deallusol newydd yn yr ymchwil a arweiniodd at gyhoeddi traethawd ymchwil, y dull teg a chyfiawn fyddai pennu cyd-berchnogaeth, yn amodol bob amser ar i’r Myfyriwr dderbyn cyfran deg o unrhyw refeniw sy'n deillio o Eiddo Deallusol o'r fath.
- Pan fo myfyriwr yn dymuno gweithio gyda'r Brifysgol i ymelwa ar eu Heiddo Deallusol a bod y Brifysgol yn penderfynu dilyn y trywydd hwnnw.
- Pan fo Myfyriwr yn creu Eiddo Deallusol gan ddefnyddio Adnoddau'r Brifysgol nad ydynt fel rheol ar gael dan amodau addysgu a dysgu arferol ar eu cwrs astudio.

5.11 Bydd Myfyriwr sydd wedi cytuno i neilltuo eu Heiddo Deallusol i’r Brifysgol o dan y cymal hwn fel rheol, at ddibenion perchnogaeth a budd, yn cael eu trin fel pe baent yn aelod o Staff y Brifysgol.

5.12 Pan fo angen bydd Myfyrwyr yn cytuno i ymgymryd â threfniadau ysgrifenedig i gadarnhau neilltuo Eiddo Deallusol i'r Brifysgol, yn arbennig felly pan fo hawliau trydydd parti neu rwymedigaethau ariannu yn golygu bod hynny’n ofynnol. Pan fo Myfyriwr yn gwrthod neilltuo eu hawliau i’r Eiddo Deallusol uchod, ni chânt eu hatal rhag cofrestru oni bai ei bod yn rhag-amod o dderbyn cyllid i dalu eu ffioedd dysgu eu bod yn neilltuo hawliau o'r fath i'r Brifysgol. Serch hynny, gall gwrthod â’u neilltuo arwain at ailbennu’r Myfyriwr i broject neu weithgarwch arall ar unwaith.

5.13 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd Myfyrwyr sydd hefyd yn gyflogedig gan y Brifysgol, neu Staff sydd wedi'u cofrestru ar gyfer gradd neu sy'n dilyn cwrs astudio, yn cael eu trin fel Staff at ddibenion y Polisi hwn yn unig pan fo'r gyflogaeth honno'n ymwneud â gweithgareddau academaidd y sefydliad.

5.14 Mae Myfyrwyr yn caniatáu trwydded barhaus, ddi-alw'n-ôl i'r Brifysgol i ddefnyddio'r Eiddo Deallusol a grëir ganddynt yn ystod cwrs astudio at ddibenion anfasnachol gweinyddol, hyrwyddo, addysgol, rheoli ansawdd, arholi ac addysgu gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddigideiddio gwaith Myfyrwyr. Bydd yr hawlfraint mewn traethawd ymchwil a ysgrifennir gan Fyfyriwr yn eiddo i'r Myfyriwr.

5.15 Mae myfyrwyr yn cydnabod y gall fod yn ofynnol iddynt gadw'r Eiddo Deallusol a grëir ganddynt yn gyfrinachol pan y gallai ei gyhoeddi gyfaddawdu hawliau'r Brifysgol i Eiddo Deallusol o'r fath, neu rwymedigaeth o gyfrinachedd sy’n ddyledus gan y Brifysgol a/neu'r Myfyriwr neu fel arall.

5.16 Anogir Myfyrwyr sy'n parhau i fod yn ansicr ynglŷn â’u hawliau a'u rhwymedigaethau o ran diogelu Eiddo Deallusol i ymgynghori â'r Swyddfa Fasnachol yn y lle cyntaf a cheisio cyngor annibynnol os oes angen. Rhaid ystyried Undeb y Myfyrwyr hefyd fel ffynhonnell cefnogaeth at y diben hwn.

### (C) Pobl nad ydynt yn Weithwyr y Brifysgol

5.17 Bydd Penaethiaid Adrannau hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cytundeb ysgrifenedig yn cael ei lofnodi yn cadarnhau perchnogaeth ar bob Eiddo Deallusol a gaiff ei ddyfeisio neu ei ddarganfod gan yr ymwelydd ac/neu unrhyw ymgynghorydd/ymgynghorwyr sydd wedi’u hurio gan yr Adran, a bod y cytundeb yn weithredol cyn i’r parti dan sylw wneud unrhyw waith ar ran y Brifysgol (cyflogedig neu anghyflogedig). Os oes gan yr ymwelydd academaidd eisoes gontract cyflogaeth gyda sefydliad allanol, ac os yw hynny'n briodol, caiff cytundeb rhyng-sefydliadol rhwng y Brifysgol a'r sefydliad allanol ei weithredu gan y Swyddfa Fasnachol cyn i unrhyw waith ddechrau. Bydd y cytundeb rhyng-sefydliadol yn pennu pa sefydliad sy'n berchen ar, ac yn masnacheiddio, unrhyw Eiddo Deallusol sy'n codi.

### (D) Cytundebau gyda Thrydydd Parti

5.18 Gall Eiddo Deallusol ddeillio o ymchwil a gefnogir neu a gomisiynir gan drydydd parti (Cyngor Ymchwil, Llywodraeth, Diwydiant, Elusen) o dan grant neu gontract, ac mewn achos o’r fath telerau’r cytundeb dan gontract rhwng y Brifysgol a’r trydydd parti fydd yn pennu perchnogaeth, defnydd, ymelwa masnachol a hawliau’r Brifysgol, os o gwbl, i unrhyw refeniw o ymelwa masnachol. Gall y telerau hyn ei gwneud yn ofynnol i Staff a Myfyrwyr neilltuo eu hawliau mewn Eiddo Deallusol i'r Brifysgol a/neu'r trydydd parti a bydd y Staff a'r Myfyrwyr perthnasol yn neilltuo Eiddo Deallusol o'r fath yn unol â hynny. Pan fo hynny'n berthnasol, rhaid i'r holl Staff a Myfyrwyr sy'n ymwneud â phroject ymchwil a gefnogir neu a gomisiynir gan drydydd parti gael eu hysbysu am y materion cytundebol gan y prif ymchwilydd cyn i'r ymchwil ddechrau.

5.19 Gan ddibynnu ar gyfraniadau ariannol a deallusol cymharol y Brifysgol a’r sefydliad trydydd parti i ddarn o waith, gall fod yn briodol i’r naill neu’r llall fod yn berchen ar unrhyw Eiddo Deallusol sy’n deilio ohono.

5.20 Bydd pob Adran yn darparu copi o unrhyw gontract sy'n cynnwys telerau Eiddo Deallusol i'r Swyddfa Fasnachol i'w gymeradwyo cyn ei lofnodi.

## 6. YMRWYMIADAU STAFF A MYFYRWYR

6.1 Mae nodi Eiddo Deallusol a grëir yn y Brifysgol yn gynnar yn hanfodol. Rhaid i Grewyr bob amser fod yn effro i werth arfaethedig eu gwaith. Mae'n rhaid i Grewyr hysbysu'r Swyddfa Fasnachol ar unwaith am unrhyw Eiddo Deallusol y credant y gallai fod â gwerth masnachol sy’n deillio o'u gwaith Prifysgol neu o waith eu Myfyrwyr.

6.2 Rhaid cadw unrhyw ddyfais a gwybodaeth gysylltiedig yn gyfrinachol nes bod gwerthusiad llawn wedi cael ei wneud gan y Swyddfa Fasnachol am botensial

ymelwa ac, os yn briodol, diogelu. Mae'r Brifysgol yn annog cyhoeddi ond rhaid i Staff sy'n dymuno cyhoeddi neu ddatgelu mewn modd arall gysylltu â'r Swyddfa Fasnachol yn gyntaf am drafodaeth ynglŷn â'r math mwyaf priodol o ddiogelu.

6.3 Rhaid datgelu dyfeisiadau gan ddefnyddio'r weithdrefn ddatgelu sy'n ofynnol gan y Swyddfa Fasnachol a fydd yn cynnal adolygiad i bennu perchnogaeth yr Eiddo Deallusol ac yn meithrin barn gychwynnol am ei botensial masnachol posibl.

6.4 Rhaid i'r Crëwr/Crewyr roi pob cymorth rhesymol i'r Brifysgol i ffurfioli perchnogaeth, diogeliad ac ymelwa masnachol ar yr Eiddo Deallusol pan fo'n ofynnol, er enghraifft, trwy weithio gyda chyfreithwyr, asiantau patent a nodi trwyddedigion posibl. Bydd y Crëwr/Crewyr yn rhoi awdurdod i'r Brifysgol i weithredu unrhyw ddogfen y bydd y Brifysgol yn ei hystyried yn angenrheidiol i gynorthwyo ymelwad ar yr Eiddo Deallusol.

6.5 Bydd holl Eiddo Deallusol y Brifysgol fel rheol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Swyddfa Fasnachol ac os nad yw bellach yn cael ei ystyried yn bosib ymelwa'n fasnachol ohono, yna gall y Swyddfa Fasnachol argymell, lle bo'n berthnasol, caniatáu i unrhyw ddiogeliad ddirwyn i ben a bod unrhyw waith pellach ar weithgarwch ymelwa yn peidio. Mae gan y Brifysgol ryddid llwyr i dderbyn argymhelliad o'r fath, ond fel rheol bydd yn rhoi rhybudd o un (1) mis yn gyntaf i'r Crëwr/Crewyr gyda'r opsiwn o bennu'r Eiddo Deallusol iddynt er mwyn dilyn ymelwad ac unrhyw ddiogeliad pellach ar eu menter a chost eu hunain. Rhaid i delerau'r aseiniad fod yn dderbyniol i'r ddwy ochr ac adlewyrchu ymdrech flaenorol, a buddsoddiad ac anghenion y dyfodol. Mewn achos o drosglwyddo hawliau o'r fath, bydd y Crëwr/Crewyr yn caniatáu trwydded barhaus, ddi-alw'n-ôl, heb freindal i'r Brifysgol ar eu cost eu hunain i ddefnyddio'r cyfryw Eiddo Deallusol a ddychwelwyd at ei dibenion ei hun.

6.6 Rhaid i Grëwr/Crewyr) sicrhau bod y Brifysgol yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig ar bob adeg am eu cyfeiriad presennol fel bod modd gweithredu'r opsiwn o bennu Eiddo Deallusol i'r Crëwr fel y nodir yn 6.5.

## 7. DOSBARTHU INCWM (RHANNU REFENIW)

7.1 Mae taliadau a dderbynnir am fasnacheiddio Eiddo Deallusol yn llwyddiannus yn cael eu trin fel refeniw gros. Gallant fod ar sawl ffurf, gan gynnwys cyfandaliadau unwaith yn unig, taliadau ymlaen llaw, ffioedd opsiwn, taliadau carreg filltir neu freindaliadau neu fel arall. Gall y Brifysgol hefyd dderbyn cyfranddaliadau yn hytrach nag arian, ac os felly bydd y Brifysgol yn dal y cyfranddaliadau ac yn dosbarthu unrhyw incwm/derbyniadau cyfalaf yn y cyfrannau a ddiffinnir yn y tabl yn 7.2 isod.

7.2 Cyn dosbarthu, bydd y Brifysgol fel rheol yn adennill unrhyw gostau cynghori, cyfreithiol a diogelu perthnasol, yn ogystal ag unrhyw ddidyniadau statudol

megis trethiant ac yswiriant gwladol. Bydd gweddill y refeniw net fel arfer yn cael ei rannu fel a ganlyn:

| Derbyniadau Net Cronnus (£) | Crewyr a staff neu fyfyrwyr ychwanegol y cytunwyd arnynt | Ysgol | Prifysgol |
|---|---|---|---|
| Hyd at 5k | 100 | 0 | 0 |
| 5k-50k | 60 | 20 | 20 |
| 50k – 100k | 40 | 30 | 30 |
| Dros 100k | 30 | 30 | 40 |

Gall y Brifysgol gytuno i gymryd budd ecwiti mewn cwmni fel dewis arall neu'n ychwanegol at yr uchod.

7.3 Ni wneir unrhyw ddosbarthiad incwm hyd nes bod y Crewyr wedi dod i gytundeb ar eu cyfran a bod cytundebau yn eu lle rhwng yr unigolyn/unigolion a'r Brifysgol. Cyrhaeddir cytundebau o'r fath fel rheol ar adeg cofrestru'r Eiddo Deallusol ac yn ddieithriad cyn i unrhyw weithgarwch masnachol ddechrau. Pan eu bod i gyd yn gytûn, gall Crewyr gytuno i gynnwys Staff neu Fyfyrwyr ychwanegol yn y dosbarthiad incwm sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r Eiddo Deallusol ond nad ydynt yn cael eu hystyried yn Grewyr o dan y Polisi hwn.

7.4 Bydd unigolion sy'n derbyn cyfran o'r refeniw o ymelwa ar Eiddo Deallusol yn unol â'r tabl uchod yn parhau i dderbyn eu taliadau os byddant yn gadael y Brifysgol hyd nes y daw'r taliadau i ben. Os bydd Crëwr yn marw, bydd ystad yr ymadawedig yn derbyn eu taliadau. Bydd y Swyddfa Fasnachol yn gyfrifol am wneud trefniadau i ddosbarthu unrhyw refeniw net.

7.5 Rhaid i unigolion sydd â hawl i daliadau o dan drefniadau rhannu refeniw y Brifysgol sicrhau bod y Brifysgol yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig ar bob adeg o'u cyfeiriad presennol i anfon unrhyw daliadau refeniw sy'n ddyledus. Os na roddir manylion y cyfeiriad presennol i'r Brifysgol yna fe'u dynodir yn 'unigolyn coll' a gellir buddsoddi'r holl daliadau refeniw sydd heb eu hawlio mewn cyfrif cadw hyd nes y bydd taliadau refeniw o'r fath yn cael eu hawlio tra bod yr holl log yn cael ei gadw gan y Brifysgol. Ni fydd y Brifysgol yn ymddiriedolwr unrhyw daliadau refeniw o'r fath sydd heb eu hawlio.

7.6 Bydd unrhyw daliadau refeniw sy'n weddill heb eu hawlio dros 5 mlynedd o'r dyddiad y derbynnir y refeniw gan y Brifysgol, yn cael eu fforffedu ar ôl y dyddiad hwnnw a byddant yn dychwelyd i'r Brifysgol ac yn cael eu dosbarthu ynghyd ag unrhyw log net rhwng unrhyw rai eraill sydd â hawl i rannu yn y ffrwd refeniw honno, ac eithrio unigolyn/unigolion coll.

7.7 Pan fo'r Brifysgol yn gweithredu fel oriel neu asiant ar gyfer comisiwn penodol i aelod o staff neu fyfyriwr, bydd y Brifysgol fel rheol yn codi 20% o incwm y gwerthiant gyda'r gweddill yn mynd i'r Crëwr/Crewyr.

7.8 Pan fo'r Brifysgol yn comisiynu aelodau staff i gynhyrchu gwaith ysgrifenedig, neu pan ddymunant gael eu cynrychioli fel ysgrifenwyr gan y Brifysgol fel asiantaeth, bydd naill ai ffi sefydlog neu gyfran o freindaliadau yn cael ei negodi fesul achos.

## 8. FFURFLENNI CYSYLLTIEDIG, CANLLAWIAU AC ADNODDAU ERAILL

Bydd gan Bennaeth y Swyddfa Fasnachol awdurdod eang a rhyddid i weithredu’r Polisi hwn yn effeithiol, ynghyd ag unrhyw ganllawiau a gweithdrefnau cysylltiedig, o fewn cyfyngiadau Siarter y Brifysgol ac unrhyw Reoliadau, Ordinhadau neu ddarpariaethau eraill a wneir gan y Cyngor ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr Is-ganghellor.

## 9. DATRYS ANGHYDFODAU

9.1 Rhaid cyfeirio unrhyw broblemau, anghydfodau, hawliadau neu unrhyw eglurhad sy’n ofynnol ynghylch unrhyw ddarpariaeth yn y Polisi hwn yn y lle cyntaf at Bennaeth y Swyddfa Fasnachol a fydd yn cysylltu â'r Pennaeth Adran perthnasol neu eu henwebai wrth ystyried y mater.

9.2 Os na chytunir ar benderfyniad gan y ddwy ochr o fewn cyfnod rhesymol o amser, yna gellir cyfeirio'r anghydfod at y Prif Swyddog Gweithredu a fydd yn dod i benderfyniad.

9.3 Os bydd y partïon yn ceisio cyngor allanol mewn anghydfod o’r fath, y parti sy’n ceisio’r cyngor fydd yn talu costau cyngor o’r fath. Bydd y penderfyniad yn derfynol ac yn ymrwymo'r holl bartïon dan sylw.

## 10. CYDYMFFURFIO

Gall unrhyw achos o dorri'r polisi hwn gael ei drin fel mater difrifol gan y Brifysgol a gall arwain at gymryd camau’n unol â Gweithdrefnau Disgyblu’r Brifysgol.

## 11 GWEITHREDU

11.1 Mae'r polisi hwn wedi cael ei gymeradwyo gan y Grŵp Tasg Cydymffurfio a'r Grŵp Strategaeth Ymchwil, ac mae'n ddarostyngedig i adolygiad cyfnodol mewn ymgynghoriad â chyrff priodol y Brifysgol.

11.2 Ni fydd y Polisi hwn yn ôl-weithredol. Bydd y Polisi hwn yn berthnasol i bob Eiddo Deallusol a ddatgelir i'r Brifysgol a gafodd ei ddyfeisio, ei wneud neu ei greu ar ddyddiad cymeradwyo’r Polisi hwn neu wedi hynny. Daw'r Polisi hwn i rym ar 24/04/2023 a bydd yn disodli'r holl fersiynau blaenorol.

**LLOFNOD**